Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

11/12/2020

# TREFNIADAU PWYSIG AR GYFER CAU SAFLE YR YSGOL A SYMUD I DDYSGU AR-LEIN / CARTREF 15-18/12/20

Annwyl riant / Gwarcheidwad,
Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn mewn argyfwng iechyd cyhoeddus.
Mae'r cyfraddau heintiau ar y lefelau uchaf erioed yn y Sir ac mae angen i ni gyd chwarae ein rhan i ddod â'r sefyllfa o dan reolaeth. Os yw cyfraddau heintiau yn parhau i godi ar y gyfradd gyfredol mae'n anochel bod mwy o bosibilrwydd y bydd angen i ddisgyblion a staff ein hysgol hunan-ynysu dros yr ŵyl Nadolig.

Mewn cyfarfod Penaethiaid neithiwr, mae'r Cyfarwyddwr Addysg, o ganlyniad i gyngor y 'Prif Swyddog Meddygol yng Nghymru' wedi rhoi'r opsiwn i ysgolion cynradd gau o ddydd Mawrth Rhagfyr 15fed 2020. Ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Llywodraethwyr, rwyf wedi penderfynu cau'r ysgol o ddydd Mawrth Rhagfyr 15fed (diwrnod olaf - dydd Llun 14.12.20) a symud i ddysgu ar-lein. Byddaf yn rhannu amserlen gyda chi ar gyfer ein darpariaeth dysgu ar-lein / cartref ynghyd â gwybodaeth a canllawiau ddydd Llun. Bydd CA2 (Bl. 3-6) yn dysgu gartref trwy Google Classrooms. Bydd y Cyfnod Sylfaen (meithrin - Bl2) yn cwblhau eu gweithgareddau trwy HWB. Disgwylir i'r plant ymgysylltu â'r dysgu cartref. Bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth Ionawr 5ed 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod taliadau i'w gwneud i ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn ystod yr amser hwn. O ran prosesu taliadau, maent yn cael eu prosesu mewn sypiau i gydymffurfio â gofynion awdit ac mae hyn weithiau'n arwain at deuluoedd yn derbyn taliadau ar wahanol adegau ac oedi cyn eu derbyn. Gofynnwn yn barchus i chi fod yn amyneddgar a'ch sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio cyn gynted â phosibl i gyflawni'r holl daliadau sy'n ddyledus.

Bydd hybiau gofal ond yn cael ei gynnig i'r disgyblion lle mae'r **ddau** riant yn staff allweddol y GIG neu'n Ofalwyr Cartrefi Gofal. Disgwylir i rieni gwneud defnydd o bob opsiwn gofal plant gan gynnwys swigod estynedig cyn gofyn am gymorth Hwb. Mae'r meini prawf hyn wedi'u gosod gan yr awdurdod lleol a bydd angen prawf o batrymau shifft a chyflogaeth ar yr ysgol. Gofynnaf yn gwrtais ichi disbyddu pob cyfle gofal plant posibl ar gyfer y 4 diwrnod hyn o gau. Os ydych chi'n dod o fewn y meini prawf uchod ac nad oes gennych unrhyw opsiwn gofal plant arall, anfonwch e-bost ataf craig.davies@parcytywyn.ysgolccc.cymru i wneud cais am ddarpariaeth gofal plant erbyn 9:30yb Dydd Llun 14/12/20. Bydd y ddarpariaeth gofal plant rhwng 9-3 o ddydd Mawrth i ddydd Gwener. Nodwch y dyddiau a'r amseroedd sy'n ofynnol.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus yn ystod yr amseroedd digynsail hyn.

Yn gywir,

*C Davies*
Pennaeth